



## **RHAGLEN ARIANNU CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY (ROWIP) 2014-15**

### **ADRODDIAD ALLBYNNAU DIWEDD Y FLWYDDYN.**

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol:

Adran	Tudalen
1. Cefndir	3
2. Cyflawniadau Allweddol	3
3. Trosolwg Ariannol	4
4. Camau a Gymerwyd: Y Mathau o Waith a Wnaed	7
5. Pwy a Ddylai gael Budd o'r Hyn a Wneir	15
6. Cyllid i Grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad	18
<b>Atodiad 1 – Rhestr o Amodau Ariannu</b>	20

## Crynodeb Gweithredol

Sefydlwyd Rhaglen Ariannu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (Rights of Way Improvement Plan - ROWIP) yn 2008, ac mae wedi bod yn hwb pwysig i weithrediad Cynlluniau Gwella ROWIP yng Nghymru.

Yn 2014/15, darparodd Llywodraeth Cymru £1 miliwn a bu CNC yn gyfrifol am weinyddu'r arian i'r 24 awdurdod sy'n gyfrifol am roi Cynlluniau Gwella ROWIP ar waith.

Defnyddiwyd yr arian i gyflawni ystod eang o gamau gweithredu ledled Cymru – yn ardal pob awdurdod lleol. Mae'r holl wybodaeth a roddir yn yr adroddiad hwn wedi cael ei darparu'n uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol.

- ***Profiad pobl o ddefnyddio llwybrau yng Nghymru***

Gwaith a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar brofiad pobl sy'n defnyddio llwybrau yw'r gwaith a ariannwyd fwyaf; gyda gwaith ar 'welliannau ymarferol i fynediad llinellol presennol' yn cyfrif am fwyafrif yr arian yn 2014/15 gyda chyfanswm o £760,505 yn cael ei wario ar welliannau ar lawr gwlad sy'n effeithio ar ba mor hawdd y mae llwybrau i'w defnyddio. O hyn, gwariwyd £300,000 ar lwybrau sy'n cael eu hyrwyddo, fel llwybrau rhanbarthol, Llwybrau Cenedlaethol neu'n cysylltu gyda Llwybr Arfordir Cymru.

Yn 2014/15 adroddodd awdurdodau bod 794km arall o'r rhwydwaith hawliau tramwy bellach yn haws ei ddefnyddio a bod £31,975 o'r arian wedi'i wario ar 11 prosiect i wneud cysylltiadau mynediad newydd.

- ***Gwelliannau sydd o fudd i ystod o weithgareddau pobl***

Unwaith eto, defnyddiwyd dros hanner y cyllid ar brosiectau sydd o fudd i fwy nag un grŵp o ddefnyddwyr, gyda phrosiectau a oedd "o fudd cyffredinol i holl ddefnyddwyr" a phrosiectau a oedd o "aml-fudd" (o fudd i fwy nag un math o ddefnyddiwr) gyda'i gilydd yn cyfrif am 53% o gyfanswm gwerth y prosiectau a ariannwyd eleni.

## 1. CEFNDIR

Mae'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol yng Nghymru gynhyrchu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP) statudol dan Adran 60 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Bwriedir iddynt gwmpasu cyfnod o 10 mlynedd a darparu cynllun wedi'i flaenoriaethu ar gyfer gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol i bob defnyddiwr – cerddwyr, beicwyr, marchogwyr, defnyddwyr oddi ar y ffordd a phobl â phroblemau gyda'u golwg a phroblemau symud.

Dyrannodd Llywodraeth Cymru (LIC) £1.7 miliwn o arian cyfalaf yn flynyddol i weithredu ROWIP yn 2008/9, 2009/10, 2010/11. Yn 2011/12 a 2012/13, dyrannwyd £1.4 miliwn. Yn 2013/14, dyrannwyd £1 miliwn ac roedd y dyraniad yr un faint yn 2014-15. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o £9.9 miliwn wedi'i ddyrannu hyd yn hyn.

Gofynnwyd i Gyngor Cefn Gwlad Cymru sefydlu Rhaglen Ariannu ROWIP a gweinyddu a rheoli'r broses o ddyrannu cyllid i awdurdodau lleol. Ar 1 Ebrill 2013, trosglwyddwyd y gwaith i ddwylo Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth a ddaeth i law gan bob un o'r 24 awdurdod<sup>1</sup> (Pob un o'r 22 awdurdod lleol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro) ynghylch y gwaith a **gyflawnwyd** yn 2014-2015, sef seithfed blwyddyn y Rhaglen Ariannu. Yn yr un modd, mae'r wybodaeth ariannol a'r wybodaeth am allbynnau yn yr adroddiad hwn yn berthnasol i'r 24 awdurdod sy'n derbyn arian.

Yn ystod y cyfnod ariannu 7 mlynedd, bu nifer o amodau y mae gofyn i bob awdurdod lleol gadw atynt. Yn 2014/15 fe ddiwygiwyd y rhain gan Lywodraeth Cymru er mwyn eu symleiddio a'u gwella. Er dibenion adrodd, dylid nodi nad oedd rheidrwydd bellach i gyflawni prosiect penodol ar gyfer yr hyn a oedd wedi'i ddiffinio fel 'grwpiau defnydd isel: grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad', ond bod awdurdodau wedi adrodd ar brosiectau sydd wedi'u cyflawni, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys fel rhan o'r adroddiad isod. I gael mwy o fanylion am yr amodau ar gyfer 2014/15, gweler Atodiad 1.

## 2. CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

Dyma'r cyflawniadau allweddol a ddeilliodd o'r arian yn 2014-2015:

### 1. Gwelliannau ymarferol ar lawr gwlad:

Defnyddiwyd £760,505 (neu 76%) o'r cyllid i wella mynediad presennol ar lawr gwlad, yn dilyn y duedd o flynyddoedd blaenorol lle gwelwyd awdurdodau lleol yn defnyddio cyllid Rhaglen Ariannu ROWIP ar gyfer gwaith ymarferol ar lawr gwlad. Mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at gynyddu cyfran y rhwydwaith sy'n hawdd ei defnyddio. Unwaith eto, mae'r gwaith yn cynnwys gwella offer ar hyd y llwybrau fel pontydd, clwydi, gosod meinciau mewn manau gyda golygfeydd allweddol a gwella arwyneb llwybrau e.e. gwella draeniad ar hyd y llwybrau.

### 2. Gwelliannau sydd o fudd i fwy nag un grŵp – gan gynnwys cerddwyr, beicwyr a marchogwyr:

---

<sup>1</sup> Mae 23 ROWIP yn cwmpasu Cymru gyfan. Ers 2009-2010, cafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sydd â ROWIP ar y cyd â Chyngor Sir Penfro, arian yn uniongyrchol gan CNC, ac, felly, cyflwynodd adroddiadau ar waith a wnaed ar wahân i'r Cyngor.

Mae'r duedd i wella hawliau tramwy i fwy nag un math o ddefnyddiwr yn parhau. Gyda'i gilydd, roedd prosiectau a oedd "o fudd cyffredinol i bob defnyddiwr" a phrosiectau "aml-fudd" (o fudd i fwy nag un math o ddefnyddiwr) yn cyfrif am 53% o gyfanswm gwerth prosiectau a 40% o gyfanswm nifer y prosiectau a ariannwyd eleni. Dengys hyn fod y Rhaglen Ariannu yn cyflawni camau gweithredu ar gyfer llawer o wahanol weithgareddau ac amrywiaeth o alluoedd. Eleni, "aml-fudd yn cynnwys Grwpiau Defnydd Isel" oedd y categori a nodwyd ar gyfer y nifer fwyaf o gamau gweithredu (gan godi i 48% o werth yr arian o gymharu â 38% yn 2013/14). Caiff natur y prosiectau hyn ei thargedu'n fwy penodol i ddiwallu anghenion pobl. Mae'r prosiectau amrywiol hyn yn darparu ar gyfer ystod eang o fuddiolwyr: er enghraifft,

- roedd 40% o brosiectau aml-fudd yn darparu ar gyfer y grŵp defnyddwyr "cerddwyr, beicwyr a marchogwyr"
- roedd 7% o brosiectau aml-fudd yn darparu ar gyfer grwpiau 'defnydd isel' gan gynnwys defnyddwyr anabl, pobl â phroblemau symud, pobl â chadeiriau gwthio ac ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.
- roedd cerddwyr yn cyfrif am 33% o werth camau gweithredu'r rheini a fyddai'n cael budd o'r hyn a wnaed.

Roedd gweddill y prosiectau hyn o fudd i ystod gyfan o ddefnyddwyr mewn cyfuniadau gwahanol e.e. "cerddwyr, pobl â symudedd cyfyngedig", neu "Cerddwyr, Beicwyr, Marchogwyr, Gywyr Cerbydau, Defnyddwyr Cerbydau". Roedd sawl cyfuniad gwahanol o ddefnyddwyr.

### **3. Gwelliannau sydd yn benodol yn hwyluso mynediad pobl a all gael trafferthion i'r awyr agored:**

Fel y soniwyd eisoes, er nad oedd rheidrwydd i gyflawni prosiect penodol i 'grwpiau defnydd isel', ym mhob gwaith gwella hawliau tramwy 'ar lawr gwlad', dylai'r awdurdodau mynediad gydymffurfio gydag egwyddor y mynediad lleiaf cyfyngedig a hefyd anelu at geisio cydymffurfio, lle bynnag y bo modd, â'r canllawiau statudol a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol dan Adran 69 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ac â chanllawiau cysylltiedig CNC 'Trwy Bob Modd Rhesymol'. Er hynny, rhoddodd awdurdodau wybod am 32 o gamau gweithredu penodol wedi'u hanelu at wella mynediad i grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad. Roedd cyfanswm y cyllid i'r prosiectau penodol hyn yn £188,160.

### **4. Statws llwybrau a seilwaith gwell.**

Mae 794km arall o'r rhwydwaith hawliau tramwy bellach yn hawdd ei ddefnyddio yn dilyn gwelliannau y mae'r Rhaglen Ariannu a ffynonellau eraill o gyllid wedi cyfrannu atynt yn 2014-15

Roedd y rhan fwyaf o'r llwybrau a gafodd eu gwella yn 2014/15 yn llwybrau troed neu'n llwybrau ceffylau, ond mae pob math o lwybr wedi gweld rhyw fath o welliant.

Yn ôl gwybodaeth am y seilwaith a gafodd ei osod a'i waredu, gweithredir yr egwyddor mynediad lleiaf cyfyngedig er mwyn gwneud y rhwydwaith yn fwyfwy hygyrch, o flwyddyn i flwyddyn.

### 3. TROSOLWG ARIANNOL

Llwyddodd Is-adran Tir, Natur a Choedwigoedd Llywodraeth Cymru i sicrhau blwyddyn arall o gyllid o'r Rhaglen Ariannu ROWIP yn 2014/15 gyda chyllideb o £1 filiwn. Gweithiodd CNC i reoli'r gyllideb er mwyn sicrhau cymaint o wariant o fewn y prosiect â phosibl a chyflawnwyd cyfanswm gwariant o £999,910 (99.9% o wariant y gyllideb).

Dyrannwyd arian Llywodraeth Cymru ar sail fformiwla ariannu gytûn, a oedd yn cynnwys y swm sylfaenol o £25,000 ar gyfer pob awdurdod gyda'r arian ychwanegol yn cael ei ddyrannu ar sail fformiwla. O fewn pob awdurdod, cyfrifwyd y fformiwla ar sail pwysoliad o 65% ar hyd Llwybrau Tramwy Cyhoeddus (gan gynnwys hawliau tramwy yn y parth arfordirol), 25% ar boblogaeth arferol (a ddiweddarwyd gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2011) a 10% ar arwynebedd tir mynediad agored.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y £1 filiwn a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Rhaglen Ariannu ROWIP. Yn ogystal â hyn, buddsoddodd yr awdurdodau lleol eu harian eu hunain a chael gafael ar ffynonellau ariannu eraill. Dengys Tabl 1 isod gyfanswm yr arian a wariwyd ar gamau gweithredu ROWIP yn ychwanegol at arian Llywodraeth Cymru.

**Tabl 1:** Cyllid Cyffredinol o dan Raglen Ariannu ROWIP yn 2014-2015

Sefydliad	Arian a Ddyrannwyd (£)
Arian Llywodraeth Cymru	1,000,000
Gwariant Awdurdod Lleol	150,366
Ffynonellau cyllid eraill*	173,134
<b>Cyfanswm Rhaglen Ariannu ROWIP (£)</b>	<b>1,323,500</b>

#### **Gwariant Awdurdod Lleol**

Mae hyn yn cyfeirio at yr arian y mae'r awdurdodau wedi cyfrannu o'u cronfeydd eu hunain yn ychwanegol at eu dyraniad o'r Rhaglen Ariannu ROWIP ar gyfer 2014-15 (ond heb gynnwys costau staff).

#### **\*Ffynonellau cyllid eraill:**

Gofynnwyd i awdurdodau hefyd adrodd ar ffynonellau cyllid eraill y bu modd iddynt gael gafael arnynt, yn ychwanegol at y ddwy brif ffynhonnell ar gyfer camau gweithredu ROWIP.

Roedd y ffynonellau cyllid eraill yn cyfateb i £173,134 ac yn cynnwys

- Llwybrau Diogel
- Cerdded i Gadw'n Iach Caerdydd
- Cyngor Sir Gaerfyrddin Streetscene
- Cerdded gydag Offa
- Busnesau sector preifat
- Cynllun Datblygu Gwledig

Er y dylid bod yn ofalus wrth gymharu symiau â blynyddoedd blaenorol (o ganlyniad i'r ffaith bod rhai awdurdodau lleol yn cynnwys eu cyllid eu hunain yn y categori 'Ffynonellau Cyllid Eraill'), mae'n amlwg bod gwariant Awdurdodau Lleol ar brosiectau dan y Rhaglen Ariannu ROWIP wedi lleihau ers 2013/14 (£426,207) ond mae ar lefel tebyg i 2012/13 (sef £198,969 bryd hynny).

Mae'n amlwg bod 'ffynonellau cyllid eraill' wedi lleihau'n sylweddol ers 2012/13 (sef £601,437 bryd hynny), ond mae'n uwch na 2013/14 (£116,868 bryd hynny). Deallwn fod

'ffynonellau cyllid eraill' wedi lleihau yn sgil y ffaith bod nifer o gytundebau ariannu allanol wedi dod i ben yn 2012/13, a all hefyd egluro'r cynnydd mewn gwariant All lle nad oedd angen yr arian hwn mwyach at ddiben arian cyfatebol. Mae lleihad cyffredinol mewn cyfraniadau o ffynonellau eraill yn adlewyrchu'r hinsawdd economaidd sydd ohoni, ynghyd â lleihad cyffredinol yng nghyllidebau a staff awdurdodau lleol.

### Rheoli Cyllid:

Fel blynyddoedd blaenorol, roedd yn rhaid i'r awdurdodau sicrhau bod 40% o'r arian yn cael ei hawlio erbyn yr ail ddyddiad cau (Rhagfyr 2014) i gynorthwyo o ran rheoli cyllideb a helpu i sicrhau bod yr holl arian yn cael ei ddefnyddio yn y flwyddyn. Llwyddodd yr holl awdurdodau i gydymffurfio â hyn, a hawliwyd 51% o gyllideb gyfan y Rhaglen Ariannu ROWIP erbyn Rhagfyr 2014, sydd gryn dipyn yn uwch na'r amod 40%.

Cyflwynwyd pob cais arall yn brydlon gyda'r holl ddogfennau priodol. Dengys Tabl 2 isod y cyllid a gynigiwyd yn ystod 2014/15. Mae'r holl awdurdodau wedi rheoli eu cyllidebau yn dda, a ni fu'n rhaid ail-ddyrannu unrhyw gyllid rhwng awdurdodau.

**Tabl 2: Y cyllid a gynigiwyd a'r swm a hawliwyd yn ystod 2014-2015**

Awdurdod	Cyllid a Gynigiwyd (£)	Newidiadau i'r Cyllid	Swm a Hawliwyd (£)
Ynys Môn	33,585	0	33,585
Blaenau Gwent	26,786	0	26,786
Bannau Brycheiniog	49,918	0	49,918
Pen-y-bont ar Ogwr	32,965	0	32,965
Caerffili	37,480	0	37,480
Caerdydd	37,103	0	37,103
Sir Gaerfyrddin	54,607	0	54,607
Ceredigion	53,521	0	53,521
Conwy	47,410	0	47,409
Sir Ddinbych	40,022	0	40,022
Sir y Fflint	37,699	0	37,699
Gwynedd	76,594	0	76,594
Merthyr Tudful	23,931	0	23,932
Sir Fynwy	41,304	0	41,303
Castell-nedd Port Talbot	35,056	0	35,056
Casnewydd	29,682	0	29,682
Cyngor Sir Penfro	23,864	0	23,864
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	23,864	0	23,864
Powys	122,668	0	122,667
Rhondda Cynon Taf	39,519	0	39,519
Abertawe	37,286	0	37,275
Torfaen	28,334	0	28,259
Bro Morgannwg	31,136	0	31,135
Wrecsam	35,666	0	35,666
Cyfanswm	1,000,000	0	999,910

#### 4. CAMAU A GYMERWYD: MATHAU O WAITH A WNAED

##### TROSOLWG

Mae'r math o waith y gellir ei wneud dan y ROWIP yn eang ei gwmpas. Dosbarthodd yr awdurdodau eu camau gweithredu yn ôl 'Mathau o Gamau a Gymerwyd o dan y Rhaglen' y cytunwyd arnynt. Drwy ddadansoddi nifer y grwpiau o wahanol gamau gweithredu a'u gwerth, ceir gwybodaeth am y math o waith a wnaed gan awdurdodau.

Dosbarthwyd y camau gweithredu fel a ganlyn:


- a) **Gwella mynediad llinellol presennol:** gwneud gwelliannau ffisegol i lwybrau, e.e. gwella arwyneb llwybrau, gosod neu atgyweirio camfeydd, clwydi ac offer arall ar hyd llwybrau.
- b) **Creu mynediad llinellol newydd:** creu llwybrau newydd yn ffisegol.
- c) **Gwella cyfleoedd mynediad eraill:** er enghraifft, gwella mynediad i dir mynediad agored/mannau gwyrdd naturiol eraill.
- d) **Gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir:** er enghraifft, arwyddion a chyfeirbwyntiau, ar y safle (e.e. paneli dehongli), oddi ar y safle (e.e. taflenni), gwefan, digwyddiadau, marchnata.
- e) **Gwella systemau/prosesau rheoli mynediad llinellol:** er enghraifft, systemau cynnal, gorfodi, monitro, adrodd.
- f) **Gwella cofnodion/cronfeydd data ar gyfer gwaith rheoli mynediad llinellol:** er enghraifft, diweddarau'r map diffiniol, creu fersiwn digidol o'r map diffiniol, neu ddatblygu/gwella systemau rheoli hawliau tramwy cyhoeddus electronig.
- g) **Dadansoddi mynediad llinellol ymhellach:** er enghraifft, arolygon/dadansoddiadau ychwanegol o ddarpariaeth mynediad neu ddadansoddiad ychwanegol o'r defnydd a wneir o fynediad.
- h) **Mathau eraill o gamau gweithredu:** lle nad oedd unrhyw un o'r uchod yn gymwys.

Mae **Tabl 3** a **Siart 1** isod yn dangos dadansoddiad o'r holl fathau o gamau gweithredu a gyflawnwyd yn 2014-15 (yn nhrefn gwerth). Ceir dadansoddiad manwl o bwy gafodd fudd o'r camau gweithredu hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Mathau o Gamau a Gymerwyd o dan y Rhaglen	Nifer y Camau Gweithredu	Gwerth y Camau Gweithredu (£)	Gwerth y camau gweithredu fel % o'r dosraniad
a) gwella mynediad llinellol presennol	132	760,505	76%
c) gwella cyfleoedd mynediad eraill	12	65,760	7%
f) gwella cofnodion/cronfeydd data ar gyfer rheoli mynediad llinellol	7	60,711	6%
d) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir	17	37,950	4%
b) creu mynediad llinellol newydd	11	31,975	3%
h) Arall	5	23,182	2%
e) gwella systemau / prosesau ar gyfer rheoli mynediad llinellol	3	16,098	2%
g) dadansoddi mynediad llinellol ymhellach	1	3,733	0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>188</b>	<b>999,914</b>	<b>100%</b>



## Siart 1



Yn 2014-2015, roedd 76% o'r prosiectau yn waith i wella mynediad llinellol presennol. Mae hyn yn dilyn tuedd y blynyddoedd blaenorol sef bod mwyafrif y dyraniad RFP yn cael ei wario ar waith ymarferol ar lawr gwlad. Lle mae awdurdodau yn dewis mwy nag un math o gam gweithredu, fe'i dosberthir fel h) 'Arall' gweler tudalen 15 am fanylion pellach.

## ALLBYNNAU A MANYLION

O ystyried pob un o'r mathau hyn o gamau gweithredu yn eu tro, gallwn edrych yn fanylach ar nodweddion y gwaith dan sylw. Mae Tablau 4 i 14 yn rhoi dadansoddiad pellach o'r mathau o gamau gweithredu a nodir uchod.

### **Gwella mynediad llinellol presennol a chreu mynediad llinellol newydd (mathau o gamau gweithredu a a b).**

Gwariwyd £792,480 ar wella mynediad llinellol presennol, ac mae'r gwaith a wnaed yn debyg iawn i'r hyn a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf megis:

- Gosod, atgyweirio ac uwchraddio pontydd
- Llwybrau pren - gosod mesurau gwrthlithro ar ddeciau llwybrau pren
- Meinciau – gwella hygyrchedd llwybrau drwy alluogi defnyddwyr y llwybrau i eistedd a gorffwys ar hyd y ffordd a rhoi cyfle i bawb aros a mwynhau'r golygfeydd wrth fynd am dro
- Gosod offer a rhwystrau i rwystro defnydd anghyfreithlon
- Gwaith i'r arwyneb – gwella'r arwyneb fel y gall defnyddwyr ddefnyddio'r llwybrau'n rhwydd
- Cysylltu llwybrau â'i gilydd mewn ardaloedd trefol
- Gwaith sylweddol i glirio llystyfiant er mwyn gwella mynediad a chynyddu bioamrywiaeth
- Ategweithiau
- Creu a Gwella cysylltiadau PROW rhwng cymunedau ac o fewn y Parth Arfordirol

Roedd 11 prosiect a oedd yn creu mynediad llinellol newydd, gan gynnwys yr enghreifftiau canlynol:

- Pen-y-bont ar Ogwr – Creu 2 lwybr troed newydd. Un i ddarparu cyswllt rhwng Llwybrau Troed 9 a 7 Llansanffraid ar Ogwr a'r ail i greu llwybr cylchog drwy goetir i'r gogledd o Lwybr Troed 3 Llansanffraid ar Ogwr.
- Cyngor Sir Penfro – Llwybr cysylltiol o barc sglefrio newydd i PP28/38 ac yn cysylltu gyda llwybr afon PP28/32 PP96/2 i Uzmaston.
- Abertawe - Upper Killay – Creu llwybr troed.
- Merthyr Tudful – Rhwydwaith llwybrau – Creu hawliau tramwy i ffurfioli llwybrau wedi'u hyrwyddo.
- Bro Morgannwg – Cwm Colhuw - Gwella llwybr trwy Warchodfa Natur.

Dengys Tabl 4 isod y rhannau o lwybrau y nododd awdurdodau eu bod wedi'u gwella i gyrraedd safonau 'Hawdd eu Defnyddio'<sup>2</sup>. Gofynnwyd i awdurdodau adrodd ar y rhan o lwybr a oedd wedi'i gwella ar sail cysylltiadau – yn ôl y diffiniad, mae cysylltiad hawliau tramwy cyhoeddus yn dechrau ac yn gorffen lle mae'n cwrdd â'r canlynol:

- cyffordd â hawl dramwy gyhoeddus arall;
- ffordd ag iddi wyneb metlin;
- ffordd bengaead.

Diben gwneud hyn oedd dangos faint o'r rhwydwaith yr oedd bellach yn *hawdd i'r cyhoedd ei ddefnyddio* o ganlyniad i welliannau, ac nid dim ond y rhannau o lwybrau y gwnaed gwaith

---

<sup>2</sup> Dangosydd Perfformiad Cenedlaethol gynt; ni chaiff y dangosydd ei gasglu bellach gan holl awdurdodau ac nid yw canlyniadau cyhoeddus bellach ar gael.

ffisegol arnynt. **Ni ddylai** cyfanswm y rhwydwaith dan sylw gael ei briodoli i waith ac arian dan y Rhaglen yn unig. Yn hytrach, mae'r Rhaglen wedi cyfrannu at hyn, ynghyd â chyrrff a ffynonellau ariannu eraill (sef awdurdodau lleol eu hunain yn bennaf).

**Tabl 4: Statws a Hyd Llwybr y mae Rhaglen Ariannu ROWIP wedi cyfrannu at ei wneud yn 'Hawdd ei Ddefnyddio' yn ystod 2014/15 (gan gynnwys cyfraniadau o ffynonellau ariannu eraill).**

<b>Statws</b>	<b>Rhwydwaith sy'n 'hawdd ei ddefnyddio' mewn km</b>
Llwybr troed	475
Llwybr beicio	24
Llwybr ceffylau	216
Cilffyrdd Cyfyngedig	25
Cilffordd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig	54
<b>Cyfanswm</b>	<b>794</b>

Dengys Tabl 4 uchod mai llwybrau troed yw'r math mwyaf cyffredin o lwybr a gaiff ei wella o bell ffordd, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod rhwydwaith Cymru yn cynnwys llwybrau troed yn bennaf (79%)<sup>3</sup>. Dengys dadansoddiad o'r wybodaeth hon fod y llwybrau gwell hyn ar draws Cymru.

Mae Tablau 5 a 6 yn rhoi gwybodaeth am waith a wnaed ar seilwaith o dan y Rhaglen Ariannu. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, gosodwyd/disodlwyd mwy o glwydi na chamfeydd, a chafodd mwy o gamfeydd eu gwaredu. Mae hyn yn dangos bod awdurdodau yn cydymffurfio gyda'r amod i gymryd y camau mynediad lleiaf cyfyngol, sy'n galluogi cynifer o bobl â phosibl i ddefnyddio'r llwybrau a gaiff eu gwella.

Mae'r canlynol ymhlith y seilwaith arall a osodwyd:

- Pontydd
- Darparu cownter beic/cerddwr cyfun
- Meinciau
- Meinciau picnig sy'n cynnig mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio

**Tabl 5: Seilwaith a osodwyd o'r newydd neu a adnewyddwyd o dan Raglen Ariannu ROWIP yn ystod 2014/15.**

<b>Seilwaith Newydd/a Adnewyddwyd</b>	<b>Nifer yr eitem</b>
Camfeydd	84
Clwydi	532
Pontydd	101
Mynegbyst	272
Cyfeirbwyntiau	294

<sup>3</sup> CCW Policy Research Report No. 03/05 - Wales Rights of Way Condition Survey 2002

**Tabl 6: Seilwaith a waredwyd o dan Raglen Ariannu ROWIP yn ystod 2014/15.**

Seilwaith a Waredwyd	Nifer yr eitem
Camfeydd	97
Clwydi	31

**Camau gweithredu sy'n rhan o Lwybr Rhanbarthol/sy'n cysylltu â Llwybr Cenedlaethol neu Lwybr Arfordir Cymru.**

Gofynnwyd i awdurdodau nodi os oedd mathau a) a b) o gamau gweithredu yn cynnwys gwaith ar lwybr rhanbarthol, neu ar gysylltiadau â Llwybr Cenedlaethol neu Lwybr Arfordir Cymru.

O'r £792,480 a wariwyd ar fynediad llinellol, dengys y tabl isod bod 38% o'r swm hwn (£298,425) wedi'i ddefnyddio ar lwybrau sydd, mewn rhyw ffordd, yn cael eu hyrwyddo ac mae'n tanlinellu pa mor bwysig yw cynnal a gwella eu prif lwybrau i awdurdodau.

**Tabl 7: Camau gweithredu sy'n rhan o Lwybr Rhanbarthol/sy'n cysylltu â Llwybr Cenedlaethol neu Lwybr Arfordir Cymru yn 2014/15**

Math o Lwybr	Nifer y Camau Gweithredu	Gwerth y Camau Gweithredu (£)	Gwerth fel % o'r cyfanswm
Llwybr Rhanbarthol	13	73,713	25%
Llwybr Arfordir Cymru	10	70,789	24%
Llwybr Cenedlaethol	3	37,225	12%
Arall	22	116,698	39%
<b>Cyfanswm</b>	<b>48</b>	<b>298,425</b>	<b>100%</b>

Roedd y rhan fwyaf o brosiectau yn y categori 'arall' yn rhai a hyrwyddir yn lleol a llwybrau cymunedol; roedd y rhain yn cynnwys:

- Cysylltiadau â'r Rhwydwaith Beiciau Cenedlaethol
- Llwybrau a enwyd yn benodol

**Math o gam gweithredu c) gwella cyfleoedd mynediad eraill.**

Yn ogystal â hawliau tramwy lleol, dylai ROWIPau gynnwys gwybodaeth am fathau eraill o fynediad mewn ardal awdurdod. Dangosodd Adolygiad CCGC o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy<sup>4</sup> fod 4% o holl gamau gweithredu ROWIP yn ymwneud â thir mynediad Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a bod 6% yn ymwneud â chyfleoedd mynediad eraill. Nodir y mathau hyn o gamau gweithredu dan Raglen Ariannu ROWIP yng nghategori c) gwella cyfleoedd mynediad eraill. Dengys Tabl 8 isod y mathau eraill o gyfleoedd mynediad a gafodd eu gwella yn 2014/15 ac a dderbyniodd 2.3% o'r cyllid cyffredinol i wella mynediad arall; mae hyn yn adlewyrchu'r pwyslais a roddir ar fynediad llinol yn y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy eu hunain.

<sup>4</sup> CCW Policy Research Report No. 08/26. Evison, Taylor and Coleman. (2009) *Wales ROWIP Review*.

**Tabl 8: Mathau o Fynediad a gafodd eu gwella o dan categori c) gwella cyfleoedd mynediad eraill 2014/15**

<b>Math o Fynediad</b>	<b>Nifer y Camau Gweithredu</b>	<b>Gwerth y Camau Gweithredu (£)</b>	<b>Gwerth fel % o'r cyfanswm</b>
Mannau Gwyrdd Agored	2	2,638	4%
Tir Hawl Tramwy Cyhoeddus	1	0	0%
Arall	9	63,122	96%
<b>Cyfanswm</b>	<b>12</b>	<b>65,760</b>	<b>100%</b>

Ymhlith y 9 prosiect a oedd yn perthyn i'r categori 'Arall' roedd:

- Prosiect i gynnwys gwella llwybr i sicrhau bod glan yr afon yn y Priory Groves, Aberhonddu, yn hygyrch i bawb. Bydd safle picnic hygyrch hefyd yn cael ei greu ger yr afon.
- Gwella mynediad i lwybrau aml ddefnydd i alluogi pobl â phroblemau symud i gael mynediad i lwybrau'n haws.
- Llogi bws mini wedi'i addasu'n arbennig gyda lifft cynffon i gludo defnyddwyr cadair olwyn a sgwter symudedd i fynychu rhaglen o deithiau tywys.

**Math o gam gweithredu d) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir.**

Y math hwn o gam gweithredu oedd yr ail fath mwyaf cyffredin i gael ei ariannu (o ran nifer y camau gweithredu) gan dderbyn 4% o'r cyllid cyffredinol eleni. Mae'r math hwn o gam gweithredu wedi bod yn ddefnydd cyson boblogaidd o'r cyllid yn ystod oes y rhaglen. Dangosodd Adolygiad CCGC o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Cymru mai gwaith 'hyrwyddo oddi ar y safle' oedd yr ail fath o gam gweithredu mwyaf cyffredin ar ôl 'rheoli'. Dyma fath o gam gweithredu y gellid ei gyflawni am gost cymharol isel ac mae hefyd yn hanfodol i annog mwy o bobl i gyfranogi mewn gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored gan bod hyrwyddo llwybrau yn sicrhau defnyddwyr bod y llwybrau hyn ar agor ac ar gael.

Mae'r tabl isod yn dangos manylion am y mathau o gamau gwybodaeth a hyrwyddo a gafodd eu hariannu.

**Tabl 9: Math o gam gweithredu d) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir 2014/15**

<b>Math o wybodaeth</b>	<b>Nifer y Camau Gweithredu</b>	<b>Gwerth y Camau Gweithredu (£)</b>	<b>Gwerth fel % o'r cyfanswm</b>
Oddi ar y safle	8	7,376	19%
Arwyddion a Chyfeirbwyntiau	1	2,472	7%
Digwyddiadau	1	3,485	9%
Ar y safle	1	3,000	8%
Arall	6	21,617	57%
<b>Cyfanswm</b>	<b>17</b>	<b>37,950</b>	<b>100%</b>

Mae mathau o wybodaeth oddi ar y safle, e.e. taflenni, yn dal yn ffyrdd poblogaidd o ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd. Maent yn gymharol rad i'w cynhyrchu a gellir eu cludo'n hawdd i wahanol fannau e.e. ffeiriau gwledig, canolfannau gwybodaeth i ymwelwyr, a'u

dosbarthu mewn dyddiau agored a digwyddiadau hyrwyddo eraill. Mae hefyd yn hawdd trosglwyddo'r copi papur i gopi digidol i'r rhyngwyd, a gellir ei ddiweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau. Mae hyn yn golygu bod awdurdodau lleol yn gallu hyrwyddo llwybrau i gynulleidfa sy'n gyfarwydd â thechnoleg yn ogystal â'r rheiny sy'n well ganddynt gopi caled yn eu dwylo.

Mae digwyddiadau i gynllunio a hyrwyddo'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o annog pobl i gyfranogi mewn gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored. Maent yn darparu ffordd i ryngweithio gyda defnyddwyr cyfarwydd a defnyddwyr newydd trwy siarad a dod i wybod beth mae defnyddwyr eisiau ac yn disgwyl o'u rhwydwaith hawliau tramwy lleol. Mae digwyddiadau hefyd yn gyfle gwych i hyrwyddo'r hyn sydd eisoes ar gael i bobl ei fwynhau.

**Tabl 10: Math o gam gweithredu e) gwella systemau/prosesau rheoli mynediad llinellol 2014/15**

Mae rheoli mynediad llinellol yn gywir ac yn ddeallus yn hanfodol os am gynnal rhwydwaith hawliau tramwy da. Dengys y tabl isod y mathau o waith a wneir o dan Raglenni Ariannu ROWIP sy'n ymwneud â systemau a phrosesau ar gyfer gwaith rheoli.

<b>Math o Gam Gweithredu</b>	<b>Nifer y Camau Gweithredu</b>	<b>Gwerth y Camau Gweithredu (£)</b>	<b>Gwerth fel % o'r cyfanswm</b>
Cynnal a chadw	3	16,098	100%
<b>Cyfanswm</b>	<b>3</b>	<b>16,098</b>	<b>100%</b>

Ymhlith y gwaith a wneir o dan y math hwn o brosiect mae:

- Hyfforddiant i wirfoddolwyr a staff ar sut i archwilio pontydd
- Parhau gyda'r rhaglen cynnal a chadw ar y rhwydwaith Llwybrau a Hyrwyddir mewn partneriaeth gyda chyrrff allanol fel y Gwasanaeth Prawf a Cadw Cymru'n Daclus
- Gwella'r rhyngwyneb gyda gwirfoddolwyr ar systemau mapio

**Tabl 11: Math o gam gweithredu f) gwella cofnodion/cronfeydd data ar gyfer gwaith rheoli mynediad llinellol 2014/15**

<b>Math o Gam Gweithredu</b>	<b>Nifer y Camau Gweithredu</b>	<b>Gwerth y Camau Gweithredu (£)</b>	<b>Gwerth fel % o'r cyfanswm</b>
Dwyn ynghyd y map diffiniol	4	44,712	74%
Datblygu/Gwella system reoli electronig hawliau tramwy cyhoeddus	1	1,425	2%
Digido'r Map Diffiniol	1	10,579	17%
Arall	1	3,945	7%
<b>Cyfanswm</b>	<b>7</b>	<b>60,661</b>	<b>100%</b>

Roedd gwaith ar y Map Diffiniol yn dal i fynd rhagddo yn 2014-2015, ac mae'r gwaith o ddiweddarau'r Map Diffiniol wedi cael sylw cyson drwy gydol y cyfnod ariannu 7 mlynedd sy'n dangos bod y math hwn o gam gweithredu yn parhau i fod yn sail i'r gwaith rheoli hawliau tramwy ac yn un o nodweddion parhaus y Cynlluniau Gwella ROWIP.

Gwnaed 3 penodiad tymor penodedig i'r gwaith ar y Map Diffiniol ac fe'u hariannwyd yn llwyr gan y Rhaglen Ariannu ROWIP. Nid yw'n bosibl adnabod y gost o gyflogi staff gan fod awdurdodau lleol yn cael eu gofyn i fanylu costau ar sail prosiect yn hytrach nag ar sail y staff ar waith.

**Tabl 12: Math o gam gweithredu g) dadansoddi mynediad llinellol ymhellach 2014/15**

<b>Math o ddadansoddiad</b>	<b>Nifer y Camau Gweithredu</b>	<b>Gwerth y Camau Gweithredu (£)</b>	<b>Gwerth fel % o'r cyfanswm</b>
Arolygon/gwaith dadansoddi pellach mewn perthynas â mynediad	1	3,733	100%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1</b>	<b>3,733</b>	<b>100%</b>

Pwrpas y cam gweithredu hwn oedd datblygu ymhellach y rhwydwaith gwirfoddolwyr o ran arolygu a gwneud gwaith cynnal a chadw sylfaenol.

**Tabl 13: Math o gam gweithredu h) Arall 2014/15**

	<b>Nifer y Camau Gweithredu</b>	<b>Gwerth y Camau Gweithredu (£)</b>	<b>Gwerth fel % o'r cyfanswm</b>
Arall	5	23,182	100%
<b>Cyfanswm</b>	<b>5</b>	<b>23,182</b>	<b>100%</b>

Roedd y camau gweithredu a gofnodwyd o dan y categori "Arall" yn cynnwys mwy nag un math o gam gweithredu e.e. roedd rhai prosiectau yn cynnwys elfen o gam gweithredu math a) gwella mynediad llinellol a cham gweithredu math d) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir. Roedd felly yn anodd gosod y cam gweithredu penodol hwnnw o fewn y meini prawf sy'n bodoli i'r gwahanol fathau o gamau gweithredu.

Ymhlith y prosiectau hyn roedd:

- 'Safle Adfer Cwm Garw Uchaf. Darparu 2 lwybr ceffyl newydd (Cyf Grid. SS 89829337 - SS 89919315 & SS 90049299 - SS 90099233). Gwella darpariaeth llwybr ceffyl fel rhan o ad-drefnu/ailsefydlu Hawliau Tramwy yn dilyn cais gan ddefnyddwyr/Cyngor Cymuned. h) Arall: b) creu mynediad llinellol newydd, f) gwella cofnodion/cronfeydd data ar gyfer gwaith rheoli mynediad llinellol'
- 'Gweithio gyda datblygwyr tai i greu un llwybr bach cyswllt newydd a lledu (a rhoi arwyneb newydd - datblygwyr yn talu) llwybr troed presennol i roi gwell mynediad i deuluoedd gyda chadeiriau gwthio a phobl mewn cadeiriau olwyn rhwng safle'r datblygiad tai newydd a chyfleusterau presennol y pentref (ac i'r gwrthwyneb). h) Arall: a) gwella mynediad llinellol presennol, b) creu mynediad llinellol newydd, f) gwella cofnodion/cronfeydd data ar gyfer gwaith rheoli mynediad llinellol'

**Tabl 14: Camau gweithredu a oedd yn cynnwys elfen o Fioamrywiaeth 2014/15**

Roedd nifer o brosiectau amrywiol a oedd hefyd yn helpu'r cyhoedd i ddeall neu warchod bioamrywiaeth leol. Yn 2014/15, nid oedd yn rhaid i bob awdurdod gynnal prosiect penodol (yn hytrach nag amod cyffredinol i gadw at ddyletswyddau cysylltiedig â chadwraeth), ond lle roedd awdurdodau wedi rhoi gwybod am brosiectau o'r fath, fe'u cynhwysir yn y dadansoddiad.



<b>Math o Gam Gweithredu ar gyfer Bioamrywiaeth</b>	<b>Nifer y Camau Gweithredu</b>	<b>Gwerth y Camau Gweithredu (£)</b>	<b>Gwerth fel % o'r cyfanswm</b>
Prosiectau Bioamrywiaeth	32	200,724	100%
<b>Cyfanswm</b>	<b>32</b>	<b>200,724</b>	<b>100%</b>

Mae 'prosiectau bioamrywiaeth' yn cyfeirio at gamau gweithredu sy'n gwella mynediad ac sydd hefyd yn helpu gyda chadwraeth natur/bioamrywiaeth.

Mae'r mathau hyn o gamau gweithredu yn wych er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd, gan fod y cyhoedd yn dysgu am fioamrywiaeth leol ar hyd y llwybrau y maent yn eu defnyddio. Gellir gwneud hyn ar ffurf byrddau dehongli mewn mannau allweddol ar hyd y llwybr, neu ger mynedfeydd i warchodfeydd natur lleol neu ddarparu taflenni am ffiora a ffawna mewn ffeiriau gwledig neu ysgolion.

Mae rhai o'r camau gweithredu hyn ar gyfer bioamrywiaeth yn debyg iawn i gamau gweithredu math d) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir, lle mae'r gwaith a wnaed fel rhan o'r cam gweithredu hwn yn cynnwys byrddau dehongli, taflenni a digwyddiadau.

## **5 PWY A DDYLAI GAEL BUDD O'R HYN A WNEIR**

Gofynnwyd i awdurdodau nodi pwy a ddylai gael budd o bob cam gweithredu.

**Tabl 15: Mae'r tabl isod yn dangos y prif grwpiau a gafodd fudd o Raglen Ariannu ROWIP – mae hyn yn cynnwys yr holl gamau gweithredu a ariannwyd gan Raglen Ariannu ROWIP a'r holl fuddiolwyr 2014/15 (gweler hefyd Siart 2 isod)**

<b>Buddiolwyr</b>	<b>Nifer y Camau Gweithredu</b>	<b>Gwerth y Camau Gweithredu (£)</b>	<b>Gwerth fel % o'r cyfanswm</b>
Aml-fudd (gan gynnwys Grwpiau Defnydd Isel)	68	478,116	48%
Cerddwyr	89	329,356	33%
Budd cyffredinol i holl ddefnyddwyr	8	52,786	5%
Defnyddwyr anabl a phobl gyda Phroblemau Symud	10	69,520	7%
Arall	5	35,455	4%
Grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd isel o gefn gwlad	3	10,495	1%
Marchogwyr	2	7,465	0.7%
Defnyddwyr cerbydau modur	1	2,472	0.2%
Bobl Ifanc, Teuluoedd, Cerddwyr, defnyddwyr anabl, bobl gyda phroblemau symud	2	14,249	1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>188</b>	<b>999,914</b>	<b>100%</b>

Yn rhaglen eleni, roedd 5% o'r camau gweithredu o "fudd cyffredinol i holl ddefnyddwyr" ac roedd 48% yn "aml fudd" h.y. o fudd i fwy nag un grŵp o ddefnyddwyr. Gyda'i gilydd, mae'r prosiectau hyn yn cyfrif am 53% o gyfanswm gwerth yr arian yn y flwyddyn hon.

Fel ag yn Adolygiad ROWIP Cymru (2009) a blynyddoedd blaenorol, y grŵp defnyddwyr unigol a gafodd y budd mwyaf o'r camau gweithredu oedd cerddwyr, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod y rhan fwyaf o rwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus Cymru yn llwybrau cerdded. Hefyd, nid yw'n bosibl i grwpiau defnyddwyr eraill gael budd yn y ffordd y mae cerddwyr yn cael budd oherwydd bydd gwelliannau ar lwybrau ceffylau a llwybrau beicio hefyd o fudd i gerddwyr, gan eu bod mewn gwirionedd yn 'aml fudd'. Roedd prosiectau i gerddwyr yn cyfrif am 33% o ddyraniad ariannol y Rhaglen Ariannu a 47% o gyfanswm cyffredinol y camau gweithredu.

Un o'r amodau yn ystod 6 blynedd blaenorol y cyfnod ariannu oedd bod yn rhaid i bob awdurdod gynnwys o leiaf 1 cam gweithredu a oedd yn diwallu anghenion grwpiau 'Defnydd Isel' sy'n cael eu diffinio fel "grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad", er enghraifft:

- defnyddwyr anabl
- bobl gyda phroblemau symud
- bobl ifanc

Os yw awdurdod wedi cofnodi cam gweithredu fel "Defnydd Isel", yna roedd yn gam gweithredu a fwriadwyd yn benodol ar gyfer y grwpiau o bobl a enwyd uchod.

Wrth edrych ymhellach ar y data, gwelir bod grwpiau defnydd isel hefyd yn cael eu cynrychioli mewn camau gweithredu eraill sydd heb gael eu hanelu'n benodol at grwpiau defnydd isel.

Roedd camau gweithredu a gofnodwyd fel rhai "aml fudd" yn gamau gweithredu y bwriadwyd i fwy nag un grŵp gael budd o'r gwaith, gan gynnwys, gan gynnwys y grwpiau hynny sy'n gallu cael mynediad i gefn gwlad yn haws ac yn amlach h.y. cerddwyr a beicwyr, yn ogystal â grwpiau "defnydd isel" sydd ddim yn gallu cael mynediad mor hawdd â hynny i gefn gwlad.

Mae prosiectau sydd o "fudd cyffredinol i holl ddefnyddwyr" yn dueddol o fod yn ymwneud â chnllunio a gwella system rheoli.

Mae Tabl 15 uchod yn dangos bod 68 o gamau gweithredu yn rhai "aml fudd" h.y. o fudd i fwy nag un math penodol o ddefnyddiwr. Mae manylion y camau gweithredu hyn fel a ganlyn:


- Roedd 13 o gamau gweithredu yn cynnwys grwpiau 'Defnydd Isel' ac fe'u cofnodwyd fel rhai oedd o fudd i: "cerddwr, defnyddwyr anabl a rhieni gyda chadeiriau gwthio/bygis", "cerddwyr, beicwyr, defnyddwyr anabl, pobl gyda phroblemau symud, grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd isel o gefn gwlad, Cymunedau'n Gyntaf".
- Cofnodwyd 68 o gamau gweithredu fel rhai 'aml fudd' a oedd wedi'u hanelu at gyfuniad o ddefnyddwyr nad oeddynt yn anabl fel:
  - 61 o gamau gweithredu o fudd penodol i "gerddwyr, beicwyr a marchogwyr"
  - 2 o gamau gweithredu o fudd penodol i "gerddwyr, beicwyr, marchogwyr a thirfeddianwyr"
  - 4 o gamau gweithredu o fudd penodol i "gerddwyr, beicwyr, marchogwyr a gyrwyr cerbydau, defnyddwyr cerbydau modur, tirfeddianwyr"

- 1 cam gweithredu o fudd penodol i “gerddwyr, marchogwyr, beicwyr a gyrwyr cerbydau”

Mae'r un gosodiad yn wir yn achos marchogwyr a beicwyr. Er mai 19 o gamau gweithredu yn unig sydd yn benodol ar gyfer “Cerddwyr, beicwyr a marchogwyr”, mae dadansoddiad o'r holl gamau gweithredu, sef 188 ohonynt, yn dangos eu bod hefyd yn cael eu cynrychioli mewn camau gweithredu wedi'u targedu'n benodol at grwpiau defnydd isel yn ogystal â'r rhai ar gyfer cyfuniad o wahanol ddefnyddwyr. Dylid cofio hefyd y bydd unrhyw gamau gweithredu sydd o fudd i farchogwyr a beicwyr yn rhai aml-fudd ar y cyfan, gan fod gwelliannau ar lwybrau ceffylau a llwybrau beiciau o fudd i gerddwyr hefyd.

Mae'n galonogol iawn gweld bod 7% o'r holl arian wedi cael ei ddefnyddio ar gamau gweithredu sydd wedi'u hanelu'n benodol i fod o fudd i bobl gyda phroblemau symud.

## Siart 2



## 6 CYLLID I GRWPIAU SY’N GWNEUD DEFNYDD AMGHYMESUR O ISEL O GEFN GWLAD 2014/15

Fel y nodwyd eisoes, nid oedd rheidwydd cynnal prosiect penodol a oedd yn anelu at ddiwallu anghenion pobl anabl, ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, lleiafrifoedd ethnig neu grwpiau eraill sy’n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad. Lle roedd awdurdodau wedi adrodd ar brosiectau penodol, fe’u dangosir isod.

**Tabl 16: Math o grŵp ‘defnydd isel’, nifer y camau gweithredu a’u gwerth**

Buddiolwyr	Nifer y Camau Gweithredu	Gwerth y Camau Gweithredu (£)	Gwerth fel % o’r buddiolwyr
Aml-Fudd	13	87,806	47%
Pobl sydd â phroblemau symud	8	63,347	34%
Defnyddwyr Anabl	2	6,173	3%
Pobl ifanc, Teuluoedd	2	14,249	8%
Grwpiau eraill sy’n gwneud defnydd isel o gefn gwlad	4	10,495	6%
Arall *	3	6,090	3%
<b>CYFANSWM</b>	<b>32</b>	<b>188,160</b>	<b>100%</b>

Mae’r canlynol wedi cael budd o’r 13 o gamau gweithredu aml-fudd:

- Pobl ifanc, Cerddwyr, Defnyddwyr Anabl, Pobl sydd â phroblemau symud, teuluoedd ifanc, beicwyr
- Cerddwyr, marchogion, defnyddwyr cerbydau modur, beicwyr
- Defnyddwyr isel yn ogystal â rhai defnyddwyr gyda phroblemau sy’n cyfyngu ar eu symud

Mae “arall” yn y categori hwn yn cyfeirio at rai Cerddwyr gyda grisiau wedi’u gwella er mwyn hwyluso mynediad. Mae’n ddiddorol nodi bod nifer y prosiectau yn debyg i’r hyn ydoedd y flwyddyn flaenorol (34 yn 2013/14) ond bod gwerth y gwaith wedi syrthio (£203,711 yn 2013/14). Un awdurdod yn unig oedd heb gyflwyno gwybodaeth am y math hwn o brosiect yn llawn. Mae’r manylion yn Nhabl 17 isod yn dangos gwerth y “Math o Waith” h.y. y math o waith a gyflawnwyd. Mae mwyafrif y gwaith i grwpiau ‘defnydd isel’ yn ymwneud â gwella mynediad llinellol presennol.

**Tabl 17: Math o waith a gwerth y gwaith a gyflawnwyd ar gyfer grwpiau ‘defnydd isel’ 2014/15**

Math o Gam Gweithredu	Gwerth y Camau Gweithredu (£)
a) gwella mynediad llinellol presennol	154,494
c) gwella cyfleoedd mynediad eraill	32,855
h) arall	811
<b>Cyfanswm</b>	<b>188,160</b>

Mae gwaith a wnaed i grwpiau ‘defnydd isel’ wedi bod yn debyg i’r hyn a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol gan gynnwys:

- gwella arwyneb llwybrau i roi mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn
- gosod celfi hygyrch a meinciau i bobl sydd â phroblemau symud
- mynediad ar lwybrau pren
- prynu sgwter symudedd ar gyfer teithiau tywys
- creu llwybr i bobl ag anableddau

Eleni, £811 yn unig oedd gwerth y categori ‘arall’ ac roedd yn ymwneud â gwaith:

- Creu un llwybr cyswllt newydd a lledu llwybr troed presennol ym Mharc Derwen, Coety (Cyf Grid. SS 92008161)

Mae’r mathau o gamau gweithredu a gyflawnwyd yn ystod 2014-2015 wedi bod yn amrywiol, gan olygu unwaith eto bod llawer o gamau gweithredu wedi bodloni mwy nag un math o waith. Mae’n galonogol gweld bod awdurdodau lleol yn parhau i gynnal gwaith ar lawr gwlad sy’n “ticio mwy nag un blwch” ac felly’n gwneud y defnydd gorau o’r Rhaglen Ariannu ROWIP.

## DIWEDD

Lluniwyd y papur hwn gan:  
 Susan Jackson (Swyddog Ariannu ROWIP),  
 Carys Drew (Ymgynghorydd Hamdden a Mynediad)  
 Medi 2015

## Atodiad 1

1. DS. Yn 2014/15, diwygiodd Llywodraeth Cymru rai amodau mewn ymateb i adborth a dderbyniwyd gan awdurdodau lleol.

Dyma'r amodau penodol a effeithiwyd gan hyn:

- Cyflwynwyd ym Mlwyddyn 3, pob awdurdod i gyflawni o leiaf un gwelliant rhwydwaith a fydd yn hybu dealltwriaeth y cyhoedd o fioamrywiaeth leol neu'n helpu i warchod bioamrywiaeth leol: **Dilëwyd er mwyn canolbwyntio ar y dyletswyddau mwy cyffredinol**
- Cyflwynwyd ym Mlwyddyn 3, caniatwyd i awdurdodau lleol ddefnyddio cyllid Rhaglen Ariannu ROWIP yn y Parth Arfordirol pan newidiodd y Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir ganolbwynt y rhaglen o'r Parth Arfordirol a Llwybr Arfordir Cymru i ganolbwyntio ar Llwybr Arfordir Cymru yn unig mewn pryd ar gyfer agoriad swyddogol y Llwybr ym mis Mai 2012. **Dilëwyd y gofyniad ond mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth uchel**
- Pob awdurdod yn cyflawni o leiaf un gwelliant sy'n anelu at ddiwallu anghenion pobl anabl, ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, lleiafrifoedd ethnig neu grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad yn well. Ym mhob gwaith gwella hawliau tramwy ar lawr gwlad, dylai'r awdurdodau mynediad hefyd geisio cydymffurfio, lle bynnag y bo modd, â'r canllawiau statudol a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol dan Adran 9 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ac â chanllawiau cysylltiedig Cyfoeth Naturiol Cymru 'Trwy Bob Modd Rhesymol' [a thrwy hynny ddilyn egwyddor y Mynediad Lleiaf Cyfyngedig er budd cynifer o ddefnyddwyr cefn gwlad ag sy'n bosibl]. **Dilëwyd er mwyn canolbwyntio ar y dyletswyddau mwy cyffredinol**

**Rhestr o Amodau Rhaglenni Ariannu ROWIP a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn ystod 2014-2015 ac a nodwyd yn adran 11 o'r llythyr cynnig i'r Rhaglen Ariannu:** (roedd y rhain yn ychwanegol at amodau cynnig grant arferol CNC)

### 11. Amodau ychwanegol sy'n benodol i'r prosiect hwn neu raglen waith:

- a) Yn ogystal â Pharagraff 2 yr amodau uchod, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio gydag unrhyw ofynion eraill gan CNC sy'n ymwneud â chynefinoedd a rhywogaethau a warchodir.
- b) Rhaid cyflwyno adroddiadau cynnydd gyda'r holl geisiadau yn ogystal ag adroddiad diwedd blwyddyn ar ffurf i'w gytuno. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth ar gynnydd tuag at gyflawni'r cerrig milltir interim y cytunwyd arnynt ac allbynnau targed.
- c) Rhaid i awdurdodau hawlio 40% o'u dyraniad cyllid erbyn Rhagfyr 2015.
- d) Os oes arwyddion clir o danwariant tebygol, bydd hawl gan CNC/Llywodraeth Cymru i adfer yr arian a'i ddefnyddio rhywle arall, neu gytuno ar gyllid ychwanegol i awdurdodau sy'n gallu gwneud defnydd effeithiol o unrhyw danwariant posibl.
- e) Disgwylir i Awdurdodau Lleol ddefnyddio eu systemau archwilio eu hunain wrth drin cyllid o Raglen Ariannu ROWIP a sicrhau bod eu harchwilwyr

allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) yn rhoi sylw i hyn yn eu rhaglenni archwilio blynyddol.

- f) Ym mhob gwaith gwella hawliau tramwy 'ar lawr gwlad', dylai'r awdurdodau mynediad gydymffurfio gydag egwyddor y mynediad lleiaf cyfyngedig a hefyd anelu at geisio cydymffurfio, lle bynnag y bo modd, â'r canllawiau statudol a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol dan Adran 69 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ac â chanllawiau cysylltiedig Cyfoeth Naturiol Cymru 'Trwy Bob Modd Rhesymol'
- g) Rhaid i'r Awdurdod Lleol roi'r ROWIP ar y rhyngwrwyd. Dylid anfon manylion y ddolen berthnasol ar gyfer y we at Susan Jackson ar ôl bodloni'r amod hwn.
- h) Bydd awdurdodau yn cyflwyno gwybodaeth am y lefel cyllid y maent yn bwriadu ei fuddsoddi mewn gwaith rheoli mynediad (gyda thystiolaeth yn nogfennau'r gyllideb) yn y flwyddyn ariannol 2015-16. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yn cadarnhau bod cyllid Rhaglen Ariannu ROWIP sy'n cael ei ddyrannu yn ychwanegol at y cyllid a gynlluniwyd ar gyfer gwaith rheoli cefn gwlad cyffredinol ac na fydd y cyllid newydd yn disodli cyllid nag adnoddau'r awdurdod ei hunan ar gyfer gwaith hawliau tramwy.
- i) Bydd cyllid Rhaglen Ariannu ROWIP yn arian ar wahân ac ychwanegol ar gyfer gwaith blaenoriaeth ac ni fydd yn addas ar gyfer arian cyfatebol mewn cysylltiad â grant cefn gwlad CNC.
- j) Ni fydd CNC yn gyfrifol am sicrhau bod awdurdodau wedi cyflawni'r amod hwn. Er dibenion y rhaglen hon, ystyrir disodli cyllid fel toriad yn y gyllideb a ddyrennir ar gyfer 2015-16.
- k) Telir gwariant cymwys o 1 Ebrill 2015, **cyn belled a bod y Bartneriaeth a Thîm Ariannu yr UE yn derbyn ffurflen dderbyn wedi'i llofnodi o fewn 1 mis i ddyddiad y llythyr cynnig.**
- l) **Costau cymwys**  
Arian cyfalaf yw'r adnoddau a roddwn, ac felly bydd angen eu defnyddio mewn modd sy'n gyson gyda chanllawiau cyfrifo presennol ar wariant cyfalaf. Lle gellir nodi'n gyfreithlon bod costau'n rhai cyfalaf fel rhan o Raglen Ariannu ROWIP, gall eitemau y gellir eu hystyried ar gyfer cyllid gynnwys y canlynol:
  - i) Staff newydd a gyflogir i gyflenwi elfennau allweddol o Raglen Ariannu ROWIP. Gallai hyn gynnwys costau staff a gyflogir i weithio ar y Map Diffiniol, datblygu gwefan a gweithgareddau cyhoeddusrwydd eraill, a dileu rhwystrau rhag hawliau tramwy, lle mae modd nodi'n gyfreithlon mai costau cyfalaf yw'r rhain dan Raglen Ariannu ROWIP;
  - ii) Buddsoddiad cyfalaf mewn gwaith gwella (gan gynnwys gwaith ar bontydd, uwchraddio arwynebau llwybrau troed, gwaith draenio newydd, a gwyradau a darnau newydd o hawliau tramwy a hyrwyddir gan yr awdurdod lleol);

- iii) Buddsoddiad cyfalaf mewn gwaith gwella (gan gynnwys gwaith ar bontydd, uwchraddio arwynebau llwybrau troed, gwaith draenio newydd, a gwyriadau a darnau newydd o hawliau tramwy a hyrwyddir gan yr awdurdod lleol);
  - iv) Arwyddbyst newydd, celfi (camfeydd, ac ati) a byrddau hysbysu newydd, ac ati, ar hawliau tramwy;
  - ii) Gwelliannau penodol i ddiwallu anghenion pobl â phroblemau symud (cydymffurfio gyda'r cyngor y cyfeirir ato ym mharagraff 12 iv. Isod)
- m) Lle mae amheuaeth os yw eitem benodol yn gymwys am gyllid dan y trefniadau hyn, dylai'r awdurdod lleol ymgynghori gyda'u Hadran Gyllid eu hunain i sicrhau ei fod yn ddefnydd cyfreithiol o adnoddau cyfalaf. (Fe fydd yn rhaid iddynt ei gofnodi er dibenion archwilio).
- n) **Ariannu yn y Parth Arfordirol**  
Ers 2010/11, mae costau cymwys Rhaglen Ariannu ROWIP yn cynnwys blaenoriaethau o fewn 2 cilometr i'r arfordir (y 'parth arfordirol'), cyn belled nad ydynt eisoes yn derbyn cyllid Rhaglen Datblygu Llwybr Arfordir Cymru. Yn dilyn agoriad Llwybr Arfordir Cymru ym Mai 2012, mae gwelliannau i lwybrau sy'n cysylltu cymunedau mewn dirol gyda'r Llwybr yn debygol o greu llwybrau cylchol poblogaidd, a dylid trin y rhain fel blaenoriaeth ar gyfer cyllid Rhaglen Ariannu ROWIP gan awdurdodau arfordirol.
- o) Er dibenion Rhaglen Ariannu ROWIP, nid yw gwaith i wella Llwybr Arfordir Cymru yn gost cymwys ac ni ddylid defnyddio cyllid Rhaglen Ariannu ROWIP fel arian cyfatebol i mewn cysylltiad â Rhaglen Datblygu Llwybr Arfordir Cymru.